

CYNGOR TREF DOLGELLAU

Cofnodion o Bwyllgor Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ar nos Fawrth, Chwefror 5, 2019 yn y Llyfrgell Rhydd, Dolgellau am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL: Y Cynghorydd Delwyn Evans – Maer
Y Cynghorydd Jo Checkley – Dirprwy Faer
Cynghorwyr Linda Morgan; Dyfrig Siencyn; Ywain Myfyr; John Raghoobar;
John Cadwaladr; Ray Stubbs; Nia Williams; Heilyn Williams; Bob Gunton;
Sion Edwards (o eitem C76.2018/2019 ymlaen)

Mr Rhys Williams – Clerc

HEFYD YN BRESENNOL: Mr Huw Edwin Jones – Cyngor Gwynedd

C74.2018/2019 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Branwen Rhys Dafydd a Marian Harrison.

Cyhoeddiadau

1. Ymddiswyddiad - derbyniwyd rhybudd o ymddiswyddiad o'r Cyngor oddi wrth y Cynghorydd Marian Harrison. Cydnabuwyd y rhybudd.
2. Er cof - talwyd teyrnged i'r cyn cynghorydd a Maer, Mr John Dyer James. Cynhaliwyd munud o ddistawrwydd er cof i Mr James.

C75.2018/2019 DATGANIADAU O DDIDDORDEB PERSONOL YN DEILLIO O UNRHYW WYBODAETH YN YMWNEUD A'R CYFARFOD

Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

| Enw | Cofnod | Rheswm |
|----------------------------|---------------|--|
| Cynghorydd Jo Checkley | NP5/57L1C | Yn rhedeg busnes cyfagos â'r cais |
| Cynghorydd Heilyn Williams | NP5/57/L1C | Swyddog trwyddedu yng Nghyngor Gwynedd |

C76.2018/2019 MR HUW EDWIN JONES - CYNGOR GWYNEDD - RAS 360 - GORFFENNAF 22, 2019 YN NOLGELLAU

Cyflwynwyd: Adroddiad gan Mr Jones ar sefyllfa a statws y digwyddiad yma ar hyn o bryd. Cydnabuwyd nad oedd Mr Jones wedi derbyn gwahoddiad gan trefnwyr y digwyddiad i gyfarfod safle a gymerodd lle y llynedd. Bellach, mae cysylltiad wedi'i greu gyda'r trefnwyr.

Pwysleisiwyd mai pwrpas y sgwrs yma oedd rhoi cyfle i aelodau awgrymu syniadau ar gyfer cyfleoedd i fusnesau/adnoddau lleol i fod yn rhan o'r digwyddiadau, gan gofio y bydd llawer o'r trefniadau ac adnoddau cefnogol wedi cael ei drefnu fel pecyn 'canolog'. Adnabuwyd cyfle gyda digwyddiadau adloniant ar y noson oherwydd y bydd llwyfan Sesiwn Fawr ger Gwesty'r Llong dal ar gael (gydag estyniad o ddiwrnod).

Cytunwyd: I'r Cynghorydd Ywain Myfyr fod yn bwynt cyswllt ar y mater yma ar gyfer trafodaethau pellach gyda'r trefnwyr.

Nodwyd y bydd cyfarfod iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal ar y safle dan sylw, megis ardal y Marian / Clwb Rygbi / Pafiliwn y Marian ar Fawrth 25, 2019. Bydd cyfle i aelodau ddal i fynny gyda sefyllfa a statws y digwyddiad ar yr un diwrnod.

Diolchwyd i Mr Jones am fynychu'r cyfarfod

C77.2018/2018 I DDERBYN A CHADARNHAU COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR IONAWR 8, 2019

Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion uchod gyda'r 1 x newid canlynol:

C62.2018/2019 1 dd) Adroddiad Y Cynghorydd John Raghoobar nid y Cynghorydd John Stubbs

C78.2018/2019 MATERION YN CODI O'R COFNODION

- 1. C68.2018/2019.2 Coed Ffynnon Fair – arwyddion Rhybudd**
Penderfynwyd: I gysylltu gyda'r cwmni arwyddion ar stad ddiwydiannol y Marian ar gyfer cynhyrchu 2 x arwydd dan sylw.
- 2. C68.2018/2019.3 Trychineb Llyn Penmaen 1966 – cywirdeb enwau**
Nodwyd y bod ymchwil yn parhau ar y mater drwy'r gwasanaeth cofrestru marwolaeth y Sir.
- 3. C68.2018/2019.4 Sefydlu cyfyngiad cyflymdra o 20 m.y.a. ger safleoedd addysg ac ardaloedd eraill o'r Sir**
Adroddodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn bod cyfarfod wedi'i drefnu gyda swyddogion priodol yng Nghyngor Gwynedd i drafod hyn yn fuan. Derbyniwyd y wybodaeth
- 4. C69.2018/2019 Trafodaeth/ymweliad i Gyngor Tref Abermaw**
Nodwyd y bod hwn yn cael ei drefnu gan y Maer ar hyn o bryd.

Derbyniwyd y wybodaeth

C79.2018/2019 I DDERBYN ADRODDIAD ARIANNOL / ADOLYGIAD O GYLLIDEB 2018/2019 / ADOLYGIAD A DIWEDDARIAD O'R GOFRESTR RISG AR GYFER 2018/2019

Cyflwynwyd: i) Yr Adroddiad Ariannol misol a chadarnhawyd y taliadau canlynol

| Dyddiad | Rhif Siec | Enw | Disgrifiad | Swm £ |
|------------|-----------|---|---|-----------|
| 01.02.2019 | 103819 | Rhys Williams | Cyflog Chwefror 2019 & ad-daliad stampiau | 284.84 |
| 11.02.2019 | 103820 | Ymddiriedolaeth y Marian Mawr | Cyfraniad Blynyddol | 8000.00 |
| 11.02.2019 | 103821 | Llyfrgell Rhydd Dolgellau | Cyfraniad Blynyddol | 19,000.00 |
| 11.02.2019 | 103822 | Wendy Owen | Cyfieithu Ionawr 2019 | 98.86 |
| 11.02.2019 | 103823 | Cyngor Gwynedd | Goleuadau Nadolig 2018-2019 | 603.38 |
| 12.02.2019 | 103824 | Inland Revenue | PAYE Ionawr 2019 | 69.20 |
| 12.02.2019 | 103825 | Gardd Bywyd Gwyllt Felin Uchaf | Cyfraniad | 200.00 |
| 12.02.2019 | 103826 | Eglwys Santes Fair Dolgellau | Cyfraniad – Cloc y Dref | 100.00 |
| 13.02.2019 | 103827 | 1 st Dolgellau Rainbows & Brownies | Cyfraniad Blynyddol | 400.00 |
| 13.02.2019 | 103828 | Ras y Gader 2019 | Cyfraniad Blynyddol | 200.00 |
| 13.02.2019 | 103829 | Ambiwllans Awyr Cymru | Cyfraniad | 200.00 |
| 13.02.2019 | 103830 | Geiriau Gwyn | Cyfieithu 04.09.2018 – 04.02.2019 | 1,681.08 |

Cyflwynwyd: ii) Adolygiad o Gyllideb 2018/2019
(Gwir incwm a gwariant ar ddiwedd mis 9
Amcangyfrif incwm a gwariant hyd at 31/3/2019)
Derbyniwyd a chadarnhawyd yr adolygiad drwy nodi amcangyfrif o golled o £7,945 ar wariant y flwyddyn.
Cyflwynwyd: iii) Diweddariad o'r gofrestr risg ar gyfer 2018/2019.
Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau'r gofrestr ac adroddiadau.

1. Adroddiadau Cyngorwyr Tref.

a) **Y Maer**

- 8/1/19 Cyngor Tref
Ymddiriedolaeth y Marian
- 10/1/19 Cyfarfod a swyddogion A360 Wales ar y Marian efo
Heilyn Williams a Bob Gunton
- 16/1/19 Cyfarfod gyda Hugh Edwin ynghylch y ras A360
- 29/1/19 Cyfarfod Cyllid
- 30/1/19 Ysbyty Alltwen yn agor drysau man anafiadau 24 awr y
dydd o fis Mawrth ymlaen.

Cwynion Ionawr

- 9/1/19 Llythyr i Priffyrdd ynghylch coed pinwydd ar groesfordd
Cae Deintir a Ffordd Pencefn
- 28/1/19 Mae'r dref yn fudur - baw cwn ym mhob man - salwch
heb ei lanhau - blychau blodau yn cael eu handwyo
- 28/1/19 Gŵr yn cwyno i'r wasg am gar wedi parcio ar y gornel
wrth Gwesty'r Llong nos Sadwrn 26/1/19 am 7.30 y.h.
Angen llinellau melyn dwbl.
- b) **Y Cyngorydd Nia Williams** – cyfarfod diweddar o gyfeillion
Ysbyty Dolgellau
- c) **Y Cyngorydd John Raghoobar** – cyfarfod o is-bwyllgor cyllid y
Cyngor a chyfarfod o bwyllgor Parc y dref
- ch) **Y Cyngorydd Jo Checkley** - adborth ar faterion goleuadau
Nadolig. Fflagiau'r dref yn cael eu hadnewyddu / twtio. Adborth ar
weithgarwch diweddar Partneriaeth Dolgellau gan gynnwys llyfr
hanes newydd o'r dref.
- Grŵp Darganfod Dolgellau wedi rhoi gorai i'r farchnad ar y Sul ac
wedi dod a'i wefan i ben.
- d) **Y Cyngorydd Bob Gunton** – ffeiliau gwybodaeth ar unigolion
sydd wedi ei rhestru ar gofeb y dref bellach wedi ei dderbyn. Bydd
y wybodaeth yma yn cael ei uwchlwytho i wefan y Cyngor.
- dd) **Y Cyngorydd Sion Edwards** - trefniadau Sesiwn Fawr 2019.
Baw cwn ar lwybr rhodfa'r Mawddach / Marian yn broblemus
- e) **Y Cyngorydd Ywain Myfyr** - cyfarfod o Grŵp diwylliant gwlan yr
ardal wedi cymryd lle gyda thaith oddi amgylch safleoedd
hanesyddol cysylltiedig. Gwaith 'jet wash' oddi amgylch ardal y
sgwâr.

2. Adroddiadau Cyngorwyr Gwynedd lleol

3.

a) **Y Cyngorydd Linda Morgan**

- 8/1/19 Cais am lythyr o gefnogaeth i Gareth Lanagan ar ran
Clwb Criced Dolgellau gan eu bod yn paratoi Cynllun
Busnes i'r Clwb. Wedi pwysleisio pa mor bwysig yw'r
clwb i'r dref, a'r effaith ar bobl ifanc yn yr ardal, yn

ogystal â'r gwaith gwych maent yn ei wneud yn enwedig y gwaith ar y cae a.y.b. Dymuniadau gorau iddynt. Lot o waith da i'r dref.

- 17/1/19 Cyfarfod Cyngor Gwynedd trafod Tai
- 31/1/19 E-bost gan Wales & West parthed cadw nwy yn rhedeg yn ystod tywydd oer. Rwyf wedi cynnwys rhifau ffôn ar eich cyfer, i chi cael gweld yn y cofnodion. Rhif Argyfwng Nwy 0800 111 999 ac i gael peiriannwr wedi cofrestru gyda Gas Safe 0800 408 5500. Wedi derbyn gan Reece Emmitt, Rheolwr.
- 18/1/19 Gweithdy Arbedion Cyngor Gwynedd ym Mhenarlâg, Dolgellau
- 4/2/19 Mynychu angladd Mr John Dyer James, fel ydych yn gwybod, roedd yn Gynghorydd Tref, gwir ŵr bonheddig. Roedd o hefyd yn un o'r aelodau cyntaf o'r Pwyllgor Gefeillio.
- 5/2/19 Gweithdy Arbedion Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon - fel rydych yn gwybod ddaru'r ymgynghoriad gau ar 31 Ionawr. Ddaru 588 o bobl a 21 sefydliad gymryd rhan, sydd yn rhoi syniad da i Swyddogion ac i'r Cabinet o be mae pobl yn feddwl ohono. Ond dwi'n teimlo fod y nifer yn isel o gymharu a faint o bobl sy'n byw yng Ngwynedd. Mi fydd y Cabinet nawr yn ystyried y canlyniadau ac mi fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 7 Mawrth, lle fyddant yn penderfynu ar gynnydd Treth Cyngor.
- 24/1/19 Mynychu cyfarfod cainc Dolgellau o ffrindiau'r Ysbyty.
- 24/1/19 Mynychu cyfarfod Pwyllgor Gwaith, lle cadarnhawyd bod Cainc Abermaw yn sefyll i lawr, newyddion trist iawn. Rydym nawr i lawr i 1 cainc. Ond mae cynrychiolaeth o Dinas, Rhydymain a gobeithio Abermaw gyda ni. Felly mae hyn yn gadael y drws ar agor i'r ceinciau yma gychwyn eto yn y dyfodol. Rydym yn ffodus iawn i gael Ysbyty mor dda yn yr ardal gyda staff ymroddedig. Gadewch i mi wybod os ydych yn clywed am unrhyw un gyda diddordeb helpu yn yr ardaloedd yma.

Amryw gyfarfod pob wythnos ynglŷn â phryderon preswylwyr, rhai yn gyfrinachol. Pob un wedi ei ddelio gyda.

Bocsys Blodau Cyngor Tref - yn drist iawn mwy o faw cwn yn un o'r bocsys ger y fainc wrth Siop Harri. Mae hyn wedi ei adrodd i Peter Simpson, Rheolwr Strydoedd. Dyma'r 14 tro i hyn ddigwydd. Gobeithio flwyddyn yma unwaith bydd y CCTV yn ei le fe ddaw hyn i ben.

Un bore am 2.00 y bore, fandaliaid wedi difrodi blodau / goleuadau ger Gwesty'r Llong, Green Lane a'r Lawnt, a hefyd ein bocsys blodau. Cymerodd 3 awr i mi glirio'r llanast, roedd pridd wedi ei luchio ar draws y lon yn Sgwâr Eldon a Sgwâr Brenhines, roedd pridd hyd yn oed ar sil ffenestr yr hen adeilad Twristiaeth. Rhoddwyd y planhigion yn ôl yn eu potiau. Gwelwyd y fandaliaid a chafwyd eu dal. Nid oeddynt o'r ardal. Rydym wedi derbyn £50 fel iawndal, fydd yn mynd tuag at flodau gwanwyn i Sgwâr Eldon.

Mi fydd y blodau gwanwyn yn eu potiau gobeithio erbyn 1 Mawrth, dibynnu ar y tywydd. Mi fyddant yn edrych yn lliwgar a thlws.

Diweddariad ar y biniau gafodd ei gadarnhau heddiw.

Cyfarwyddiadau wedi mynd i Uned Gwaith i ail-leoli'r 15 bin soniwyd amdanynt yn y cyfarfod diwethaf. Mi fydd 10 bin metel yn cymryd lle'r rhai sy'n ganol y dref, cytunwyd i hyn yn ôl ym mis Mai yn dilyn cyfarfod safle yn y dref gyda Peter Simpson, Rheolwr Strydoedd. Mi fydd 5 bin plastig crwn yn cymryd lle rhai o'r hen rai sydd tu allan i'r dref yn cynnwys y rhai darparwyd gan Coleg Meirion Dwyfor, sydd nawr mewn cyflwr gwael iawn. Dwi wedi derbyn gwybodaeth y bydd y 10 bin metel yn Depo Ffordd Bala, a bydd y 5 arall yn cyrraedd o Gaernarfon cyn gynted â phosib.

Bin ger toiled Marian – ddim angen ei newid
Bin ger Siop Harri, Sgwâr Eldon – un newydd i ddod
Bin ger yr hen Ganolfan Gwybodaeth – un newydd i ddod
Bin ger yr Hen Llys – un newydd i ddod
Bin ger Swyddfa Bost Spar – un newydd i ddod
Bin ger Siop Aur – i'w dynnu oddi yna
Bin ger Caffi Cader – un newydd i ddod
2 bin tu allan i Tŷ Siamas, Sgwâr Eldon – dau newydd i ddod
Bin ger HSBC – un newydd i ddod
Bin ger J.S. Jones IFA – bin Coleg Meirion Dwyfor – un newydd i ddod
Bin ger mynedfa Stad Ddiwydiannol o'r Lawnt, Bin Coleg Meirion Dwyfor – un newydd i ddod
Bin ger Ffordd Arran, bin Ysgol y Gader – un newydd i ddod
Bin ger y Swyddfa Didoli – un newydd i ddod
Bin ger Fflatiau Maesyfelin – un newydd i ddod
Bin ar waelod ffordd i Ysgol y Gader – un newydd i ddod
Bin ger y bin baw cwn ar y Marian i'w dynnu oddi yna.
Cychwyn Llwybr y Mawddach, bin Coleg Meirion Dwyfor oedd yma - un newydd i ddod.
Newyddion da i gyd - mae'r biniau i gyd yn amlbwrpas ac wedi eu labelu, fe ddylai helpu holl broblemau yn y dref.

Diweddariad am y Wardeiniaid:

Trwy Wynedd, mae 3 Warden Gorfodaeth Stryd, yn ogystal â gorfodaeth baw cŵn, mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb am sbwriel, tipio slei bach, biniau a gwastraff, a hefyd graffiti a gosod posteri heb hawl.

Mae Wardeiniaid Cŵn / Rheolaeth Pla yn rhan o Amgylchedd/ Eiddo a chyn belled ac mae Peter yn adrodd nid oes unrhyw gyswllt a delio gyda baw cŵn mewn safleoedd cyhoeddus.

Mae'r wardeiniaid yn cerdded ar hyd ac yn archwilio'r holl ardaloedd sydd wedi cael ei nodi fel ardal o bryder. Mae hyn yn newyddion da iawn.

Mi fydd 6 arwydd A4 yn nodi'r ymgyrch yn cael eu gosod yn ardaloedd o bryder.

Dwi'n parhau i osod bagiau baw cŵn yn gwahanol ardaloedd yn y dref. Mae rhain yn mynd yn dda, OND yn anffodus mae'r bobl sydd ddim yn casglu ar ôl eu cŵn dal ddim yn eu defnyddio. Gobeithio fod pob peth dwi wedi ei ddweud yn helpu'r sefyllfa yn y dref. Os oes gan unrhyw un amseroedd a diwrnod y broblem yna rhowch wybod i mi ar ddiwedd y cyfarfod.

Un mater parcio - parthed llinellau melyn dwbl a dim aros ar unrhyw amser tu allan i Westy'r Llong. Mae'r arwydd ger Siop Boots in Sgwâr Brenhines. Dwi wedi siarad gyda Rheolwr y Gwesty am ei farn ac yn cytuno nad ydym eisiau hyn o flaen y

Gwesty gan fod llawer yn defnyddio'r safle yma i ollwng pobl anabl ac oedranus yn ddyddiol. Mae'n amlwg fod ei angen rownd y gornel gan fod problemau yno, sydd yn achosi traffig. Am resymau diogelwch amlwg parthed Gwasanaeth Tân ac Ambiwylans mae angen i'r traffig lifo yma. Dwi wedi gyrru e-bost hefo fy sylwadau.

Dwi'n mynychu cyfarfod Cymunedol ar ddydd lau ac mi roddaf ddiweddariad i chi mis nesaf.

b) Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

Adroddwyd ar y materion / digwyddiadau canlynol:

Gwaith Cynllunio ar y gweill i ail adeiladu Canolfan Dolfeurig Sawl cyfarfod gyda Gweinidogion Newydd Llywodraeth Cymru gan gynnwys Gweinidogion gyda chyfrifoldeb am lywodraeth leol a chyllid. Pryder sylweddol ynglŷn â'r sefyllfa ddirifol gyda 'Brexit'. Cyfarfod gydag Is-weinidog Gogledd Cymru parthed cynllun Twf y Gogledd.

Newyddion parthed gwaith ar safle Wylfa newydd yn dod i ben / yn oedi, yn newyddion trist gyda swyddi yn cael eu colli, ond o leiaf y bod y prentisiaid ar y safle yn cael parhau yn eu gwaith am y tro.

Cyngor Gwynedd yn paratoi ei gyllideb gogyfer 2019/2020 ar hyn o bryd. Cynnydd o rhwng 5.5 a 6.5% neu o bosib mwy ar y gorwel.

Derbyniwyd yr adroddiadau gyda diolch

C81.2018/2019 I DDERBYN ADRODDIAD ODDI WRTH IS-BWYLLGOR CYLLID Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR 1/2/2019 AC I ISOD PRAESEPT A CHYLLIDEB Y CYNGOR AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL 2019/2020.

Cyflwynwyd: i) Cofnodion o'r Is-bwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 1/2/2019.

Penderfynwyd: i) Derbyn y wybodaeth ac hefyd i gyfrannu £200 i bapur lleol y Dydd yn ei newydd wedd (cais am arian eisoes wedi ei dderbyn).

Penderfynwyd: ii) Gosod praesept o £60,000 ar gyfer y flwyddyn 2019/2020.

Penderfynwyd: iii) Cadarnhau'r gyllideb arfaethedig a gyflwynwyd i sylw'r cyfarfod.

Penderfynwyd: iv) Derbyn a chadarnhau'r gofrestr risg diwygiedig ar gyfer 2018/2019.

C82.2018/2019 GOHEBIAETH

1. V. Hill, 3 New Cottages, Llynpenmaen

Cyflwynwyd: Llythyr drwy e-bost yn mynegi pryder ynglŷn â chyflymdra cerbydau drwy'r pentref.

Penderfynwyd: i) Cefnogi'r pryder ac i'w gyfeirio i sylw'r heddlu.

Penderfynwyd: ii) I'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn ddilyn y mater i fyny drwy Cyngor Gwynedd.

C83.2018/2019 CEISIADAU CYNLLUNIO

NP5/57/L1C – CAIS RHANNOL ÓL-WEITHREDOL I EHANGU ARWYNEBEDD LLAWR YR YSTAFELL DÉ PRESENNOL, DEFNYDDIO'R IARD GEFN FEL LLE EISTEDD ALLANOL YCHWANEGOL AC YMESTYN ORIAU AGOR GWYNDY, HEOL Y BONT, DOLGELLAU. LL40 1AU

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais ar sail y bod y gwaith a'r darpariaeth yma yn gwneud llawer i wella y safle

NP5/57/212P – CAIS ÓL-WEITHREDOL AM ESTYNIAD I'R GAREJ
PRESENNOL, GWYNDAF EVANS, Ffordd Pont yr Aran,
DOLGELLAU. LL40 1HS

**Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais ar sail y bod y gwaith a'r darpariaeth
yma yn welliant i'r safle**

NP5/57/911C – ADEILADU TY AR WAHAN (DYLUNIAD DIWYGIEDIG)
YR HEN GARCHAR BODLONDEB, DOLGELLAU. LL40 1SN

**Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais ar sail y bydd y gwaith yma yn gwneud
llawer l wella y safle**